

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Gorffennaf 31ain 2017 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **07/17 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. John Crossley, Cynghorwyr: Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Ken Howell, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
2. **07/17 HEFYD YN BRESENNOL:** Cyfieithydd
Cytunwyd os bydd y Clerc wedi derbyn ymddiheuriad wrth Cyng Jamie Ayres cyn cyfarfod dylid atal y cyfieithydd fynychu ar mwyn arbed arian.
3. **07/17 YMDDIHEURIADAU:** Cyng J Ayres, A Thomas, Heddlu
4. **07/17 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Cyng. J Crossley – 6.7.i 03/15 Materion yn Codi
Cyng. D Smith – 6.7.i 03/15 Materion yn Codi
Cyng. M Rees – 6.7.i.03/15 Materion yn Codi
Cyng K Howell – 6.7.i.03/15 Materion yn Codi
5. **07/17 HEDDLU:** Ymddiheiriad. Holi a yw yr encilfa sydd o flaen y cyn dai Cyngor yn perthyn i adran priffyrdd y Sir.
6. **07/17 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mehefin 26ain 2017 a'u cael yn gywir
Cynigydd – Cyng. K Howell Eilydd – Cyng. C Jones
7. **07/17 MATERION YN CODI:**
 - 12.i.01/14. b)Audio Trail – *Y Clerc wedi galw i weld Ian Bowler, ond nid oedd adre, ac wedi anfon ebost ato ond heb gael unrhyw ateb hyd yn hyn*
 - 6.i. Pwyllgor y Parc – *gwaith yn methu ei gwblhau tan bod y mater gyda'r cofrestrfa tir yn cael ei ddatrys.*
 - 7.xv.05/16 – Caeau Canmlwyddiant – *aros i fater y cofrestri gael ei sortio allan*
 - 10.ii.07/16 Toiledau Parc Puw – *wedi derbyn trwydded dros dro, ar ôl Medi bydd y gwaith ailwampio fod cael ei wneud gyda'r Sir*
 - 10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – *pwyllgor Parc Saron wedi cyfarfod ac wedi cytuno i ofalu am hwn hefyd*
 - 10.i.06/17 Tir Temple – *nodwyd nad yw'r tir wedi ei gofrestru ac fe gytunwyd y dylai'r Clerc fynd ati i gofrestru'r tir, nodwyd hefyd gan y Clerc bod Mr K Harries o Temple Cottage wedi gwrthod y tâl a roddodd y Cyngor iddo am dorri porfa'r dar tir yma..*
 - 11.2.i.05/17 Hewl Felindre – *mae'r gwaith wedi ei wneud ar wyneb yr hewl.*
 - 11.4.i.06/17 Arwyddion cyflymdra 30mya – *nodwyd nad yw hi'n stadudol i osod arwyddion ailadrodd mewn ardal 30mya*
 - 11.7.i.06/17 Trasio gwael – *dwedwyd taw'r polisi eleni gan y Cyngor Sir oedd i wneud dim ond un torriad heblaw bod gweledd yn broblem a byddai'r trasio yn adlewyrchu hyn*
7. **07/17 GOHEBIAETH:**
 - i. Mr A Shilcock, Malgwyn – Ciosg – *cytunwyd i fabwysiadu y ciosgau coch yn yr ardal am £1 yr un, nododd y Clerc bod y cwmni yswiriant wedi nodi na fyddai cost ychwanegol os cedwir gwerth y ciosg ar £1 sef y gost o'i fabwysiadu. Cytunwyd gwneud hyn i giosgau'r ardal.*
 - ii. ebost – CSG – Les James, Rheolwr y Gwasanaethau Tai – *wedi bod ar ymweliad*
 - iii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26.06.17 - 30.06.17 – *cylchlythyrwyd*
 - iv. ebost – CSG - Tony Williams – *wedi bod allan ar ymweliad a Stad y Waun, dau dŷ sydd o eiddo'r Cyngor Sir a byddant yn gofyn i'r tenantiaid a oes diddordeb ganddynt mewn parcio ar ytir*
 - v. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 03.07.17 - 07.07.17 – *cylchlythyrwyd*
 - vi. ebost – ULIC – Bwletin Newyddion Mehefin 2017 - *cylchlythyrwyd*
 - vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 10.07.2017 - 14.07.2014 – *cylchlythyrwyd*
 - viii. ebost – CSG – Deall nodweddion Cynghorwyr etholedig – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - ix. ebost - Mid and West Wales Fire and Rescue Service – *cylchlythyrwyd*
 - x. ebost – CEREDIGION – Cau dros dro yr A486 Ffordd Osgoi Llandysul – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xi. ebost – CSG – cau ffordd dros dro - yr U5410 Felindre, Llandysul – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 17.07.2017 - 21.07.2017 – *cylchlythyrwyd*
 - xiii. ebost – ULIC – Cod Trefniadaeth Ysgolion Diwygiedig – *cylchlythyrwyd*
 - xiv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 24.07.2017 - 28.07.2017 – *cylchlythyrwyd*
 - xv. ebost – CSG – Ann Evans Toiledau – *trwydded i'w arwyddo*
 - xvi. ebost – CSG – Hyfforddiant ynghylch y Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xvii. ebost – Carol James – *Llun gyda'r Ysgol* – *cytunwyd i'r rhai fydd yn galler bod yn bresennol i gwrdd i gael llun ar ddydd Gwener 8ed o Fedi*
 - xviii. ebost – R Howson – Cysgodfan Bws Bancyffordd – *cytunwyd y dylid edrych ar y cysgodfan i gael gweld beth fyddai'r gost o'i adnewyddu*

xix. ebost – ULIC – Ymgynghoriad – Diwygio Etholiado – *cylchlythyrwyd a nodwyd*

xx.ebost – Hywel Dda – Digwyddiad Arbennig yn Sir Gaerfyrddin – GIG Cymru –Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol –
cylchlythyrwyd

xxi. ebost – Tynged yr Iaith yn Sir Gâr 2021? – *cylchlythyrwyd a nodwyd*

xxii.ebost – Cylchlythyr Haf 2017 Comisiynydd Pobl Hyn Cymru – *cylchlythyrwyd*

xxiii. ebost – Bwletin Newyddion Un Llais Cymru Gorffennaf 2017 – *cylchlythyrwyd*

xxiv. ebost – ULIC – Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru dydd Sadwrn 30ain Medi 2017 –
cylchlythyrwyd

xxv. ebost –*Mid and West Wales Fire and Rescue Service* – Edition 1 - Summer 2017 – *cylchlythyrwyd*

xxvi. ebost – Cyngor Defnyddwyr Dŵr – Adolygiad Blynyddol 2016/17 – *cylchlythyrwyd*

8. 07/17 CYNLLUNIO

Cais Ymgynghori llawn

W/35723 – Mrs M Peckham, Plot of land at Pentre Farm, Pentrecagal SA38 9HT – amrywiaeth o amod 3 ar W/27403
(ymestyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno materion ar gadw am 6 mis arall) - *caniatáu*

W/35739 – Miss E Morris, Parc y Bedw, Heol y Dderwen, Llandysul SA44 4RP – estyniad arfaethedig llawr cyntaf i'r tŷ,
cael gwared o to fflat dormer a gosod dau ddormer to ar ongl yn ei le a chodi garej ddwbl yng nhefn yr
annedd – *dim gwrthwynebiad*

W/35782 – Mr Dale & Mrs Emma James, Plot at Maes yr Haf, Waungilwen SA44 5YF – adeiladu tŷ sengl a garej ar
Wahân - *cytuno*

W/35832 - Mr D Williams, Rose Villa, Velindre SA44 5YF – estyniad i ochr yr adeilad a mân newidiadau tu fewn – *cytuno*

W/34844 – Mr Aled Jones, Felindre Public Convenience – cais arfaethedig i ddymchwel y toiledau presennol a chodi
annedd newydd yn ei lle a newid defnydd o'r tir – *gwrthwynebu'r cais oherwydd ei agosrwydd at yr arosfan
bws ac hefyd y problem parcio byddai tu allan i'r tŷ, a gofyn am fwy o wybodaeth. object to the application
because of its access and parking would be so close to the bus stop and shelter, request more information*

9.07/17 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 31/07/2017£60.00

ii .HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 31/07/17£10.50
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]

iii. Pwyllgor Parc Puw£1425.00

iv. SLCC [aelodaeth].....£121.00

Arian yn y Banc ar 12/07/2017.....£16,854.78

c. S/O

Cyflog y Clerk£550.00

10. 07/17 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Dim

11. 07/17 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng. M Rees – i. Mae'r arwydd darllen cyflymdra ger Bryn Saron yn fflachio ar 30mya angen ei newid i 20mya i gyd
fynd a'r cyflymdra yn y safle hon - *Clerci i ofyn i'r Cyngor Sir*

2. Cyng. A Eynon – i. Coed yn hongian dros y ffordd o Gwmpengraig i Crossroads – *Clerci ddweud wrth y Cyngor Sir*

3. Cyng. J Wigley – i. llawer iawn o ddŵr yn aros ar wyneb y ffordd rhwng CNE a phont Henllan – *Clerc a CS K Howell
i gysylltu a'r Cyngor Sir.*

ii. nifer o'r ymylfeini ar goll wrth ochr y ffordd yng Nghwmpengraig – *cysylltu a'r Cyngor Sir*

iii. a fyddai modd cael arwydd STOP ar waelod rhyw Pensarn yn hytrach na Give Way

iv. mae wyneb y palmant ochr arall i Ger y Llan yn anwastad iawn

4. Cyng. N Jones – i. nododd nad oes arwydd yn rhybuddio bod crwb yn yr hewl tu allan i ysgol Bryn Saron ar ochr
Saron

5. Cyng. B Jones – i. holi o gwmpas i gael gweld a fyddai rhywun yn barod i ymgymryd a rhoi adroddiad yn y papur..

6. Cyng. K Howell – i. mae cyfarfod i'w gynnal nos Sul i drafod Parc Pentrecwrt.

ii. mae'r gwaith ar y palmant o'r ysgol i Rhos fod dechrau ym mis Medi.

12. 07/17 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul nos Lun Medi25ain 2017 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00yh

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

